# Hwyluso dysgu mewn grwpiau

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â hwyluso dysgu mewn grwpiau. Mae wedi'i bwriadu ar gyfer pobl sy'n gweithio gydag eraill mewn amgylchedd dysgu/grŵp.

Mae'r safon yn edrych ar sut mae rheoli deinameg grŵp a beth mae angen ei ystyried wrth hwyluso dysgu cydweithredol.

## Meini prawf perfformiad

### *Rhaid i chi allu:*

1. cynllunio sesiynau grŵp sy'n cynnwys gweithgareddau sy'n cwmpasu amrywiaeth o arddulliau dysgu, gan bennu nodau ac amcanion
2. cynnal y dysgu oddi mewn i grwpiau drwy ddefnyddio eich sgiliau hwyluso, rheoli ac ymyrryd
3. creu cydbwysedd rhwng y tasgau sydd i'w cyflawni a phroses y grŵp
4. annog aelodau'r grŵp i gyfranogi, ochr yn ochr â sicrhau eu bod yn teimlo'n gyfforddus, ac yn unol â'u hanghenion
5. cynnal dull, lefel a chyflymdra cyfathrebu priodol gydag aelodau'r grŵp, yn unol â'u hanghenion
6. herio unrhyw ymddygiad annerbyniol mewn grwpiau, yn unol â gofynion sefydliadol
7. cytuno ar ddiben, proses a chanlyniad arfaethedig gweithgareddau gyda grwpiau
8. addasu gweithgareddau grŵp yn ôl maint a chyfansoddiad grwpiau
9. rheoli amseriad a chyflymdra gweithgareddau grŵp
10. defnyddio addasiadau ac ymyriadau'n effeithiol i wella'r broses ddysgu
11. archwilio gyda grwpiau unrhyw ffactorau sy'n cyfrannu at y gallu i ddysgu
12. annog aelodau'r grŵp i fyfyrio ar sut maen nhw wedi bod yn dysgu ac yn cyfranogi mewn grwpiau
13. monitro cynnydd aelodau'r grŵp yn unol â'u hanghenion
14. rhoi adborth adeiladol i unigolion ar y cynnydd a wnaed yn unol â'u hanghenion
15. rheoli deinameg grŵp yn effeithiol, yn unol ag anghenion grwpiau

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. pwysigrwydd cydymffurfio â gofynion a chanllawiau cyfreithiol, proffesiynol a sefydliadol perthnasol
2. deddfwriaeth, codau ymarfer, polisïau a gweithdrefnau sefydliadol mewn perthynas â rôl y swydd/y gweithgareddau a gynhaliwyd
3. cyfathrebu a sut mae addasu arddulliau cyfathrebu fel eu bod yn addas ar gyfer anghenion dysgwyr
4. gwahanol arddulliau dysgu grwpiau
5. sut mae adnabod sgiliau hwyluso ac ymyrryd a phryd mae eu defnyddio
6. sut mae cydbwyso anghenion tasgau a phrosesau grŵp a sut maen nhw'n effeithio ei gilydd
7. sut mae gwneud i ddysgwyr deimlo'n gyfforddus
8. sut mae dehongli cyfathrebu di-eiriau
9. sut mae ymdrin ag anghenion unigol mewn lleoliadau grŵp
10. ffactorau sy'n debygol o effeithio ar ddysgu ac ymddygiad mewn grwpiau
11. modelau damcaniaethol allweddol gwaith grŵp
12. sut mae ffurfio a chynnal grwpiau
13. sut mae adnabod a delio gyda materion pŵer ac awdurdod mewn grwpiau
14. y gwahanol weithgareddau dysgu sydd ar gael
15. sut mae dilyniannu a threfnu cyflymdra gwybodaeth, a mesur priodoldeb iaith ar gyfer dysgwyr unigol
16. yr ystod o wahanol arddulliau dysgu
17. y dulliau o gasglu safbwyntiau personol a sut mae eu defnyddio
18. sut mae monitro cynnydd y dysgwr mewn lleoliad grŵp
19. yr adnoddau a'r gefnogaeth sydd ar gael i ddysgwyr
20. gofynion cofnodi eich sefydliad, gan gynnwys sut mae storio gwybodaeth a gofnodwyd yn ddiogel

Hwyluso dysgu mewn grwpiau

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Justice |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 28 Chwef 2015 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 29 Chwef 2020 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Y Gwasanaeth Gwella Dysgu a Sgiliau |
| **RCU gwreiddiol** | AG27 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Addysg a hyfforddiant, Gwasanaeth Cyhoeddus a Gweithwyr Proffesiynol Cysylltiedig eraill, Galwedigaethau Gwasanaethau Cwsmeriaid, Gweithwyr Proffesiynol Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, Paratoi ar gyfer Gwaith, Gweithwyr canolfan alwadau/gyswllt, Ymgynghorwyr gyrfaoedd ac arbenigwyr ar gyfarwyddyd galwedigaethol, Gweithwyr proffesiynol ym maes lles, Ymgynghorwyr addysg ac arolygwyr ysgolion, Gweithwyr Proffesiynol Cysylltiedig a Galwedigaethau Technegol, Gweithwyr Proffesiynol ym maes Gwasanaeth Cyhoeddus |
| **Cyfres/Set** | Cyngor ac Arweiniad |
| **Geiriau Allweddol** | dysgu; grwpiau; addysgu; hyfforddiant; rhoi addysg; cyngor; arweiniad |